

Cymhwyso neu Hysbysiad Newid ar gyfer Cofrestru Daliad Cynhyrchu Llaeth Cofrestredig

Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, Rheoliadau Diogelwch a Hylendid Bwyd (Lloegr) 2013 a Rheoliadau Bwyd Cyffredinol 2004, Rheoliad (CE) Rhifau 852/2004, 853/2004, 2073/2005 a (UE) Rhif 2017/625

Diogelu masnachol pan fydd wedi'i gwblhau

Llenwch y ffurflen hon mewn inc du gan ddefnyddio **PRIFLYTHRENNAU** neu llenwch y ffurflen ar y cyfrifiadur. Mae cyfarwyddiadau ar sut i gyflwyno'r ffurflen ar gael ar waelod y ffurflen. Os oes angen help neu gyngor arnoch i lenwi'r ffurflen hon neu am yr amgylchiadau pan fydd angen cofrestru o dan y Rheoliadau, cysylltwch â'r Tîm Cymeradwyo a Chofrestru drwy anfon e-bost at approvals@food.gov.uk

Rhan 1 – Rheswm dros eich cais/rhoi gwybod am newid

Nodwch y rheswm (rhesymau) dros eich cais/rhoi gwybod am newid isod. Ticiwch gynifer o flychau ag sy'n berthnasol.

Cais am gofrestrriad newydd: er enghraifft safle nad yw wedi'i gofrestru ar hyn o bryd; perchennog newydd

Symud safle – Rhowch fanylion cyfeiriadau a rhifau'r daliad ar gyfer yr hen safle a'r un newydd

Unrhyw beth arall, gan gynnwys newidiadau – Rhowch fanylion yn y blwch isod

Gallai enghreifftiau o newidiadau gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt):
Newid enw masnachu; Ychwanegu/cael gwared ar bartner mewn busnes;
Newid o fod yn gwmni cyfyngedig i fod yn unig fasnachwr neu'n bartneriaeth;
Newid o fod yn unig fasnachwr neu bartneriaeth i gwmni cyfyngedig; Newid rhif y daliad; Gweithgarwch cofrestredig ychwanegol; Rhoi'r gorau i weithgarwch cofrestredig; Ychwanegu/cael gwared ar rywogaethau; Ychwanegu/cael gwared ar ail barlwr

Rhowch fanylion pellach yma:

--

Dyddiad y newid hwn:

--

Rhan 2a – Manylion y daliad

Enw masnachu

--

Gall yr enw masnachu fod yr un peth â'r enw cofrestredig neu unrhyw enw arall a ddewiswyd.

Os nad ydych chi'n rhoi enw masnachu, byddwn ni o'r farn bod yr enw masnachu yr un peth â'r enw cofrestredig. **Byddwch yn nodi enw cofrestredig y daliad/busnes yn Rhan 3.**

Rhif y Daliad			/				/				
----------------------	--	--	---	--	--	--	---	--	--	--	--

Cyfeiriad y Daliad
Cynhyrchu gan
gynnwys Cod Post

--

Rhif ffôn

--

Rhif ffôn symudol

--

Cyfeiriad e-bost

--

Fel rheol, bydd yr ASB yn anfon unrhyw ohebiaeth dros e-bost i'r cyfeiriad uchod. Bydd post yn cael ei ddanfôn i'r cyfeiriad daliad cynhyrchu uchod oni bai eich bod yn nodi cyfeiriad gohebiaeth gwahanol yn rhan 6.

Rhan 2b: Math o ddaliad cynhyrchu llaeth

Gweithgarwch rydych chi'n cofrestru ar eu cyfer – llenwch yr holl flychau perthnasol:

Gweithgarwch	Gwartheg	Byfflo	Geifr	Defaid	Arall*
Nifer yr anifeiliaid i'w godro yn ôl rhywogaeth					
Amcangyfrif o'r cynhyrchiad wythnosol cyfartalog (litr)					
Llaeth cyfanwerthu – llaeth a ddefnyddir i'w brosesu ymhellach. Ticiwch bob rhywogaeth berthnasol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Llaeth yfed amrwd – cyflenwi llaeth nad yw wedi cael unrhyw brosesu na thriniaeth wres, yn uniongyrchol i'r defnyddiwr terfynol (ar y safle neu oddi ar safle'r fferm lle mae'r anifeiliaid y cafwyd y llaeth ohonynt yn byw.) Ticiwch y blwch ar gyfer pob rhywogaeth berthnasol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

*Disgrifiwch rywogaethau eraill yma:

Ar gyfer llaeth yfed amrwd o wartheg, nodwch a yw ar gyfer: **gwerthiannau manwerthu**¹

neu **arlwyo**²

(Os na chaiff y blychau hyn eu llenwi, bydd y cais yn cael ei brosesu ar gyfer gwerthiannau manwerthu.)

- Gwerthiannau manwerthu:** i'r defnyddiwr terfynol, i ddsbarthwr neu mewn marchnadoedd ffermwyr (mae cyfyngiadau pellach yn berthnasol).
- Arlwyo:** i westai neu ymwelydd dros dro i safle'r fferm fel pryd bwyd neu luniaeth neu ran o'r pryd.

Mae rhagor o fanylion yn Atodlen 6 o'r Rheoliadau Diogelwch a Hyllendid Bwyd

3. **Mae Llaeth Yfed Amrwd (RDM) yn gynnyrch bwyd risg uchel** ac o'r herwydd mae rheolaethau llymach ar waith ynghylch ei gynhyrchu/gwerthu. Bydd angen i chi sicrhau bod eich rhwymedigaethau cyfreithiol i gynhyrchu RDM yn cael eu cyflawni cyn y gallwch chi ddechrau gwerthu. Dylid rhoi gwybod i'r ASB a ydych yn bwriadu dechrau gwerthu RDM a byddwn ni'n trefnu i arolygydd ymweld â'ch safle i sicrhau eich bod chi'n cydymffurfio â'r gyfraith. Mae rhagor o fanylion am hyn yn y [canllawiau llaeth yfed amrwd](#).

Os ydych chi'n gweithredu'n dymhorol, nodwch pa fisoedd rydych chi'n gweithredu

O'r dyddiad

I'r dyddiad

A yw'r daliad o dan gynllun sicrwydd fferm? Ydy Nac ydy

Os ydyw, rhowch enw'r cynllun:

Rhowch "Wedi'i gadw ar y fferm" neu enw'r Prynwr Llaeth Cyntaf:

(er enghraifft Arla, Dairy Crest, Muller ac ati)

Rhan 3: Manylion Gweithredwr y Busnes Bwyd a strwythur y busnes

Rhoddir y Cofrestriad Daliad Cynhyrchu Llaeth i'r busnes y manylir arno isod.

Nodwch y math o fusnes:

(Rhowch groes mewn un blwch yn unig)

Corfforaethol	<input type="checkbox"/>	nawr llenwch 3a
Partneriaeth	<input type="checkbox"/>	nawr llenwch 3b
Unig fasnachwr	<input type="checkbox"/>	nawr llenwch 3b
Math arall o fusnes	<input type="checkbox"/>	darparu manylion yn rhan 6*

*Bydd mathau eraill o fusnesau yn cael eu trin fesul achos i nodi'r person naturiol neu'r person cyfreithiol y mae'n ofynnol iddo gydymffurfio â chyfraith bwyd o fewn y busnes bwyd sydd o dan ei reolaeth.

3a: Manylion busnes corfforaethol (fel y'u cofrestrwyd gyda Thŷ'r Cwmnïau neu gyfwerth)

Enw llawn y cwmni

Cyfeiriad y swyddfa gofrestredig:

(gan gynnwys Cod Post)

--

Rhif Cofrestru'r Cwmni								
-------------------------------	--	--	--	--	--	--	--	--

Cyfarwyddwr neu gyfarwyddwyr y cwmni

Teitl		Enw cyntaf		Cyfenw	
Teitl		Enw cyntaf		Cyfenw	
Teitl		Enw cyntaf		Cyfenw	

Rhowch fanylion llawn i bob cyfarwyddwr y cwmni – Os oes angen, parhewch ar ddalen ar wahân ac atodwch.

3b: Gweithredwr neu weithredwyr y busnes bwyd (i'w lenwi os yw'n Bartneriaeth/Unig fasnachwr)

Teitl		Enw cyntaf		Cyfenw	
--------------	--	-------------------	--	---------------	--

Cyfeiriad

--

E-bost

--

Teitl		Enw cyntaf		Cyfenw	
--------------	--	-------------------	--	---------------	--

Cyfeiriad

--

E-bost

--

Teitl		Enw cyntaf		Cyfenw	
--------------	--	-------------------	--	---------------	--

Cyfeiriad

E-bost

Rhaid darparu manylion llawn ar gyfer yr holl bartneriaid – os oes angen, parhewch yn Rhan 6 neu ar ddalen o bapur ar wahân.

Rhan 4: Rheolwr y daliad a manylion cyswllt

Cynrychiolydd gweithredwr y busnes bwyd sydd wedi'i awdurdodi'n briodol

Teitl	Enw cyntaf	Cyfenw
Rhif ffôn		
Ffôn symudol		
E-bost		

Rhan 5: Oriau gweithredu/cynhyrchu

Nodwch yr holl gyfnodau amser godro trwy lenwi'r adrannau priodol isod. Defnyddiwch y cloc 24 awr.

O <input type="checkbox"/>	o'r gloch	I <input type="checkbox"/>	o'r gloch	(er enghraifft o 07:00 o'r gloch i 08:00 o'r gloch)
O <input type="checkbox"/>	o'r gloch	I <input type="checkbox"/>	o'r gloch	(er enghraifft o 14.00 o'r gloch i 15.00 o'r gloch)
O <input type="checkbox"/>	o'r gloch	I <input type="checkbox"/>	o'r gloch	(er enghraifft o 20.00 o'r gloch i 21.00 o'r gloch)

Godro parhaus (er enghreifft godro robotig):

Rhan 6: Manylion ychwanegol

Os yw'ch cyfeiriad gohebiaeth yn wahanol i'r cyfeiriad cynhyrchu, nodwch hwn yma.

Os nad ydych yn barod eto i ddechrau cynhyrchu'r gweithgareddau yr ydych wedi'u disgrifio yn Rhan 2, rhowch syniad o'r amserlen debygol.

Rhowch unrhyw fanylion eraill y credwch a allai fod yn bwysig i'ch cais.

Rhan 7: Llofnodi'r cais a nodiadau

Nodyn pwysig – rhaid i'r llofnod gyd-fynd ag un o'r unigolion a nodir yn Rhan 3

Os na fyddwch yn llenwi pob rhan o'r ffurflen hon, bydd eich cais yn cael ei ddychwelyd i chi.

Rwyf trwy hyn yn gwneud cais, ar ran y busnes a nodir yn Rhan 3, er mwyn cofrestru i ddefnyddio'r daliad yn y cyfeiriad a nodir yn Rhan 2a at ddibenion cynhyrchu llaeth fel y manylir arno yn Rhan b, y mae'r Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2004, Rheoliadau Diogelwch Bwyd a Hylendid (Lloegr) 2006 a Rheoliadau Bwyd Cyffredinol 852/2004, 853/2004, 2073/2005, Rheoliad (CE) Rhifau 2017/625 a (EU) Rhif 2017/625 yn berthnasol.

Enw mewn PRIFLYTHRENNAU	
Dyddiad	

Llofnod

Nodyn pwysig

(1) Rhaid i rif y Daliad yr ydych wedi'i ddyfynnu gael ei gofrestru i enw'r busnes a ddangosir yn Rhan 3 ac i gyfeiriad y daliad a ddangosir yn Rhan 2a.

Cyhoeddir rhifau daliad gan yr Asiantaeth Taliadau Gwledig; cysylltwch â nhw os oes gennych chi unrhyw ymholiadau.

(2) Mae'n drosedd gwerthu llaeth i'w yfed gan bobl neu i'w weithgynhyrchu i gynhyrchion i'w gwerthu i'w yfed gan bobl, oni bai bod y busnes a'r daliad wedi'u cofrestru yn unol â Rheoliad (CE) Rhif 852/2004.

(3) Rhaid i weithredwr y busnes bwyd roi gwybod i'r ASB am unrhyw newid sylweddol i weithrediadau'r busnes bwyd, fel gweithgareddau ychwanegol. Mae diffyg cydymffurfio â'r gofyniad hwn yn drosedd o dan y Rheoliadau Bwyd (Diogelwch a Hylendid). Gellir gwneud hyn trwy gyflwyno Cais neu Hysbysiad Newid wedi'i gwblhau ar gyfer Daliad Cynhyrchu Llaeth Cofrestredig i'r ASB. Mae copi o'r ffurflen ar wefan yr ASB. Os bydd gweithredwr y busnes bwyd yn newid, dylai'r gweithredwr newydd gyflwyno Cais Cofrestru. Dylid rhoi gwybod i'r ASB am fân newidiadau neu os ydych chi'n rhoi'r gorau i gynhyrchu llaeth yn barhaol trwy un o'r dulliau isod.

Cyflwynwch y ffurflen wedi'i llenwi trwy un o'r dulliau canlynol:

Postio i:

Asiantaeth Safonau Bwyd, Tîm Cymeradwyo a Chofrestru
Ystafell 112, Kings Pool
Peasholme Green
Caerefrog
YO1 7PR

E-bostio at: approvals@food.gov.uk

Hysbysiad Preifatrwydd Templod yr ASB: pan rydym ni'n casglu gwybodaeth yn uniongyrchol gan unigolion

Yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) fydd 'Rheolydd' y data personol a ddarperir i ni.

Pam fod angen yr wybodaeth hon?

Mae angen i ni gasglu'r wybodaeth hon at ddibenion cofrestru daliadau cynhyrchu llaeth.

Rydym ni'n gwneud hyn yn unol â chyflawni ein dyletswyddau statudol. Ni fyddwn ni'n casglu unrhyw ddata personol gennych chi nad ydym ni ei angen.

Mae darparu'r wybodaeth hon yn ofyniad statudol, a gallai methu â darparu'r wybodaeth arwain at beidio â chydymffurfio â Rheoliadau Diogelwch Bwyd a Hylendid (Cymru) 2006.

Beth fyddwn ni'n ei wneud â'r wybodaeth?

Dim ond cyhyd ag y bo hynny'n angenrheidiol i gyflawni'r swyddogaethau hyn y byddwn ni'n cadw gwybodaeth bersonol, ac yn unol â'n polisi cadw. Mae hyn yn golygu y cedwir yr wybodaeth hon drwy gydol cyfnod y cofrestriad ac am 10 mlynedd ar ôl i gofrestriad o'r fath ddod i ben.

Mae'r holl ddata personol rydym ni'n ei brosesu yn byw ar weinyddion o fewn yr UE. Mae ein gwasanaethau cwmwl wedi'u caffael drwy Gytundebau Fframwaith y Llywodraeth a'u hasesu yn erbyn egwyddorion cwmwl y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol.

Nid oes gan drydydd partïon fynediad at eich data personol oni bai bod y gyfraith yn caniatáu iddynt wneud hynny. Yn unol â'r ymrwymiad hwn, efallai y bydd eich gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo i adrannau eraill y llywodraeth. Bydd yr ASB weithiau'n rhannu data gydag adrannau eraill y llywodraeth, cyrff cyhoeddus a sefydliadau sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus i'w cynorthwyo i gyflawni eu dyletswyddau statudol, neu pan fydd er budd y cyhoedd.

Cyhoeddir enwau a chyfeiriadau sefydliadau llaeth cofrestredig ar wefannau canlynol y llywodraeth:

- <https://data.food.gov.uk/catalog/datasets>
- <https://data.gov.uk/dataset/list-of-registered-dairy-establishments>

Beth yw eich hawliau?

Mae gennych chi'r hawl i weld yr wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi drwy wneud cais ysgrifenedig i'r cyfeiriad e-bost isod. Os ydych chi ar unrhyw adeg o'r farn bod yr wybodaeth rydym ni'n ei phrosesu amdanoch chi yn anghywir, gallwch chi wneud cais i'w chywiro. Os hoffech chi wneud cwyn am y ffordd rydym ni wedi trin eich data personol, gallwch chi gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data a fydd yn ymchwilio i'r mater.

Os nad ydych chi'n fodlon â'n hymateb neu os ydych chi o'r farn nad ydym yn prosesu eich data personol yn unol â'r gyfraith, fe allwch chi gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO).

Ein Swyddog Diogelu Data yn yr ASB yw Arweinydd y Tîm Rheoli Gwybodaeth a Diogelwch. Gallwch chi gysylltu drwy anfon e-bost at:
informationmanagement@food.gov.uk

© Hawlfraint y Goron 2020